


CYFARFOD	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
DYDDIAD	12fed Chwefror 2019
TEITL	Cyfarfodydd Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
PWRPAS	Ystyried y nifer o gyfarfodydd cyffredin y Pwyllgor a gynhelir yn ystod y flwyddyn fwrdeistrefol
AWDUR	Vera Jones Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

1. CEFNDIR

- 1.1 Amcan yr adroddiad yw ystyried nifer o gyfarfodydd cyffredin y Pwyllgor a gynhelir yn ystod y flwyddyn fwrdeistrefol.
- 1.2 Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, mae'n ofynnol i'r Pwyllgor gyfarfod fel isafswm o unwaith y flwyddyn, ond nid oes uchafswm wedi ei nodi. Cyfrifoldeb y Cadeirydd yw sicrhau bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal pan fo angen.
- 1.3 Mae'r aelodau eisoes wedi derbyn adroddiad ynghylch hyfforddiant aelodau sy'n nodi fod cylchred barhau i hyfforddiant Aelodau sy'n dilyn y tymor etholiadol. Mae gwaith y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd hefyd yn dilyn cylchred, gydag uchafbwynt y gylchred yn y flwyddyn cyn etholiad a'r flwyddyn ar ôl etholiad, a materion yn tueddu i sefydlogi yn y cyfnod yn y canol. Gweler y darlun isod i geisio esbonio'r tuedd.



2. PATRWM CYFARFODYDD Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD YNG NGWYNEDD

- 2.1 Cynhaliwyd dau gyfarfod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn 2017-18.
- 26 Hydref 2017 yn trafod 3 eitem mewn 1 awr a 50 munud
 - 12fed Ebrill 2018 yn trafod 7 eitem mewn 2 awr a 45 munud.
- (Gweler tabl yn Atodiad A am fwy o fanylion)

2.2 Cynhaliwyd 3 chyfarfod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn 2018-19 hyd yma.

- 26 Mehefin 2018 yn trafod 4 eitem mewn 1 awr a 45 munud.
- 25 Hydref 2018 yn trafod 1 eitem mewn 35 munud.
- 12 Chwefror yn trafod 4 eitem

Mae cyfarfod nesaf y Pwyllgor wedi ei raglennu ar gyfer 9 Ebrill 2019 (ymhen 8 wythnos).
(Gweler tabl yn Atodiad A am fwy o fanylion)

2.3 Mae'r patrwm yn amrywiol ar draws Cymru, ond y mwyafrif o swyddogion yn nodi fod gwaith y Pwyllgor (ac felly'r niferoedd cyfarfodydd) yn tueddu i gynyddu a chyrraedd uchafbwynt wrth baratoi at gyfnod etholiadau yn ystod cylchred tymor y Cyngor.

3. CAMAU NESAF

3.1 Mae lle i ystyried sawl cyfarfod sefydlog blynyddol sydd eu hangen yn y calendr pwyllgorau.

3.2 Mae cyfle i ystyried y rhaglen waith blynyddol rhag-blaen, gan raglennu cyfarfodydd i gydfynd â gofynion y rhaglen waith. Rhaid cofio hefyd fod nifer o ddatblygiadau ar gyfer darpariaeth i aelodau etholedig yn digwydd yn sgil is-grwpiau o'r pwyllgor, sy'n adrodd yn ôl i'r pwyllgor gydag argymhellion. Gellid parhau gyda threfniadau o'r fath. Yn ogystal, petai angen cyfarfod arbennig neu benodol yna gellir darparu ar gyfer hynny.

4. ARGYMHELLIAD

4.1 Ceisio barn y pwyllgor am amllder a nifer cyfarfodydd y pwyllgor.

Pwyllgor Gwasanaethau Democraidd - Mai 2017 – Rhagfyr 2018

Nifer Eitemau a Hyd y cyfarfodydd

TABL DATA:

DYDDIAD	NIFER EITEMAU	PA EITEMAU	HYD Y PWYLLGOR	HYD Y PWYLLGOR MEWN MUNUDAU
12 Chwefror 2019	4	Hyfforddiant Aelodau		
		Adroddiadau Blynyddol		
		Hyd pwyllgorau		
		Calendr blynyddol y Cyngor		
25 Hydref 2018	1	Ymgynghoriad Panel Annibynnol Cymru ar gydnabyddiaeth ariannol	35 munud	35
26 Mehefin 2018	4	Technoleg Gwybodaeth	1 awr 45 munud	105
		Merched mewn democratiaeth		
		Diogelwch personol i aelodau		
		Rheoliadau Diogelu Data		
12 Ebrill 2018	7	Technoleg Gwybodaeth	2 awr 45 munud	165
		Ymholiadau gan Aelodau		
		Protocol Aelod- swyddog		
		Hyfforddiant Aelodau		
		Adroddiad Blynyddol PGD		
		Cydnabyddiaeth ariannol i aelodau		
		Adroddiadau blynyddol		
05 Rhagfyr 2017	0	wedi ei ganslo	0	0
26 Hydref 2017	3	materion yn codi gan aelodau	1 awr 50 munud	110
		Cyfweliadau datblygiad personol		
		Data Amrywiaeth		

